O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2014 Rhif 1200 (Cy. 116)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffyrdd yr A494 a'r A550 (Cyfnewidfa Queensferry i Gyfnewidfa Parc Glannau Dyfrdwy, Sir y Fflint) (Gwaharddiadau Traffig Dros Dro a Therfyn Cyflymder 40 MYA) 2014

Gwnaed *1 Mai 2014*

Yn dod i rym *10 Mai 2014*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Dolgellau – Man i'r De o Benbedw (yr A494 a'r A550) (y cyfeirir atynt yma wedi hyn fel "y cefnffyrdd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a'i wahardd ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 10 Mai 2014. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A494 a'r A550 (Cyfnewidfa Queensferry i Gyfnewidfa Glannau Dyfrdwy) (Gwaharddiadau Traffig Dros Dro a Therfyn Cyflymder 40 MYA) 2014.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn:-

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 19:00 o'r gloch ar 10 Mai 2014 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the lengths of the trunk road")* yw'r darnau hynny o gefnffyrdd yr A494 a'r A550 a ddisgrifir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiadau a Chyfyngiad

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 1.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal, na pheri i unrhyw feic pedal gael ei reidio ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 1.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 1.

6. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

Atal

7. Atelir drwy hyn ddarpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Ewloe i Queensferry, Clwyd) (Dileu Cyfyngiad 50 MYA) 1987 **(3)** mewn perthynas â'r darn hwnnw o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn yn ystod yr adegau hynny y bydd y cyfyngiad a nodir yn erthygl 6 ar waith.

Cymhwyso

8. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5, 6 a 7 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau a'r cyfyngiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

9. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 1 Mai 2014.

R MORGAN
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27: amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
(3) O.S. 1987/2245

ATODLEN 1

Gwahardd Cerbydau, Cerddwyr a Beicwyr Dros Dro

i) Y darn hwnnw o gerbytffordd cefnffyrdd yr A494/A550 tua'r dwyrain sy'n ymestyn o drwyniad ffordd ymadael tua'r dwyrain Cefnffordd yr A494 wrth Gyfnewidfa Queensferry hyd at drwyniad ffordd ymuno tua'r dwyrain Cefnffordd yr A550 wrth Gyfnewidfa Parc Glannau Dyfrdwy.

(ii) Y darn cyfan o ffordd ymuno tua'r dwyrain Cefnffordd yr A494 wrth Gyfnewidfa Queensferry.

ATODLEN 2

Terfyn Cyflymder Dros Dro o 40 MYA

i)Y darn hwnnw o brif gerbytffordd cefnffordd yr A494 tua'r dwyrain sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyfnewidfa Ewloe hyd at ganolbwynt Cyfnewidfa Queensferry.